COMISIYNYDD
SAFONAU
STANDARDS
COMMISSIONER

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

April 2018 - March 2019

CYNNAL
ENW DA

GWARCHOD
SAFONAU

MYND I'R AFAEL
 PHRYDERON

Prif gyfrifoldebau'r Comisiynydd Safonau yw cael cwynion am ymddygiad Aelodau'r Cynulliad ac ymchwilio iddynt, cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad am ei ymchwiliadau a rhoi cyngor i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd am y weithdrefn gwyno.



Syr Roderick Evans
Comisiynydd Safonau

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Comisiynydd Safonau: **www.comisiynyddsafonaucymru.org.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Y Pierhead**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: 0300 200 6539
E-bost: **Standards.Commissioner@cynulliad.cymru**

COMISIYNYDD
SAFONAU
STANDARDS
COMMISSIONER

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

Ebrill 2018 - Mawrth 2019

CYNNAL
ENW DA

GWARCHOD
SAFONAU

MYND I'R AFAEL
Â PHRYDERON

COMISIYNYDD SAFONAU

STANDARDS COMMISSIONER



# Cynnwys


1. Cyflwyniad ... 7
2. Cwynion ... 10
3. Gweithgareddau eraill ... 13
4. Gwariant ... 14
5. Gwefan y Comisiynydd ... 16
6. Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ... 17
7. Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad ... 24
8. Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ... 33
9. Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ... 46

COMISIYNYDD
SAFONAU
STANDARDS
COMMISSIONER



# 1. Cyflwyniad

**1.1.** Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, cwblheais fy ail flwyddyn lawn yn fy rôl fel Comisiynydd Safonau y Cynulliad Cenedlaethol. Os yw wythnos mewn gwleidyddiaeth yn amser hir, mae dwy flynedd bron â bod yn dragwyddoldeb. Fodd bynnag, yn rôl y Comisiynydd Safonau, mae'n parhau i fod yn gyfnod byr ac efallai ei bod yn rhy gynnar i mi geisio nodi tueddiadau neu newidiadau yn natur y gwaith a wneir yn fy rôl. Serch hynny, efallai fod un neu ddau o faterion yn werth eu nodi.

**1.2.** Yn gyntaf, eleni gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a gafwyd; mae'r nifer a ddaeth i law bron yn ddwbl yr hyn a gafwyd y llynedd, a dyma'r nifer uchaf mewn unrhyw flwyddyn ers creu rôl y Comisiynydd Safonau. Mae'n anodd pennu'r rheswm dros hyn. Gall hyn fod yn wyriad annisgwyl o'r duedd, neu gallai awgrymu bod lefel uwch o waith craffu gan y cyhoedd a gwrthwynebwyr gwleidyddol ar ymddygiad Aelodau'r Cynulliad. Os felly, mae hyn yn beth da mewn rhai ffyrdd, gan ei fod yn wiriad naturiol ar ymddygiad Aelodau a'u rolau. Mae'n anochel fy mod yn cael cwynion o bryd i'w gilydd â dimensiwn gwleidyddol iddynt. Mae'n naturiol y bydd gwrthwynebwyr gwleidyddol yn craffu ar bleidiau eraill a'u cydymffurfiad ag amryfal reolau a rheoliadau. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus i sicrhau na wneir cwynion i mi er mantais wleidyddol yn bennaf. Mae gwneud cwyn yn gam difrifol ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod cwynion yn cael eu gwneud am y rhesymau cywir yn unig. Bydd yn ddiddorol gweld a yw'r cynnydd mewn cwynion yn parhau.

**1.3.** Mae'r ail fater yn peri cryn bryder. Mae manylion dau ymchwiliad yr wyf wedi eu cynnal i gwynion wedi cael eu datgelu i'r cyfryngau cyn i'r Pwyllgor Safonau orffen ystyried fy adroddiad a'r materion dan sylw. Mae'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad yn seiliedig ar gyfrinachedd hyd at y pwynt pan gaiff y gŵyn ei chadarnhau a phan fo'r Pwyllgor Safonau wedi cwblhau ei ystyriaeth. Mae rheswm da dros hyn, o safbwynt yr Aelod y cwynwyd amdano ac o safbwynt yr achwynydd. Os na chaiff cwyn ei chadarnhau, mae'n annheg i'r Aelod ddioddef cyhoeddusrwydd a allai fod yn niweidiol yn deillio o gŵyn nad yw wedi'i chadarnhau. Yn yr un modd, nid yw rhai achwynwyr yn dymuno i'w hunaniaeth hwythau fod yn hysbys, a gallai'r posibilrwydd i gwynion gael eu datgelu atal pobl rhag gwneud cwynion dilys neu sensitif. I grynhoi, mae datgeliadau yn tanseilio'r weithdrefn gwyno ac rwyf wedi cymryd camau ychwanegol i atal datgeliadau pellach, a byddaf yn parhau i fonitro technolegau newydd i atal datgeliadau yn y dyfodol.

**1.4.** Un o'r meysydd a welodd gynnydd yn nifer y cwynion yw cwynion sy'n deillio o sylwadau a wnaed gan Aelodau'r Cynulliad ar y cyfryngau cymdeithasol. Er bod cyfryngau cymdeithasol yn ffordd werthfawr o alluogi'r Aelodau i gyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch materion o bwysigrwydd gwleidyddol, mae natur gyhoeddus a chyflym y math hwn o gyfathrebu yn esgor ar heriau. Os yw Aelod yn postio sylwadau byrbwyll neu'n ymateb yn frysiog neu'n fyrbwyll i rywbeth herfeiddiol neu wrthwynebol a ddywedir gan aelod o'r cyhoedd, gall hyn arwain at rywun yn gwneud cwyn i mi ynghylch ymddygiad yr Aelod hwnnw. Mae'n ymddangos bod canfyddiad nad yw'r rheolau a'r confensiynau arferol ar gyfer cyfathrebu wyneb yn wyneb yn berthnasol i'r cyfryngau cymdeithasol. Beth bynnag yw'r achos ar gyfer pobl eraill, nid yw hynny'n wir ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Mae'r Cod Ymddygiad yn ei le i sicrhau bod Aelodau ein Cynulliad Cenedlaethol yn cadw at safonau ymddygiad uchel ym mhob agwedd ar eu trafodaethau â'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Wedi dweud hynny, mae'n ymddangos i mi y byddai'r Aelodau'n elwa ar ganllawiau ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a gwn fod y Pwyllgor Safonau yn awyddus i weithio ar hyn yn ystod 2019-20.

**1.5.** Soniais yn adroddiad y llynedd fy mod wedi cael cais gan y Llywydd ac arweinwyr y pleidiau gwleidyddol a oedd yn cael eu cynrychioli yn y Cynulliad ar y pryd i geisio alinio'r polisïau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan bleidiau pan wneir cwyn yn erbyn Aelod Cynulliad i blaid wleidyddol yr Aelod yn unol â'r weithdrefn y mae'n ofynnol i mi ei dilyn. Mae'n dda gennyf adrodd bod yr holl bleidiau yn y Cynulliad wedi cytuno ar brotocol sydd, yn gryno, yn darparu y bydd person sy'n cwyno am Aelod Cynulliad i blaid yr Aelod yn cael gwybod y gellir ymchwilio i'r gŵyn naill ai gan y blaid neu gan Gomisiynydd Safonau'r Cynulliad. Yr achwynydd sydd i ddewis pa un.

**1.6.** Dros yr haf, cyflwynir ffordd ychwanegol, allanol, o gael cyngor a chymorth mewn perthynas â chwynion am aflonyddu rhywiol, fel y gofynnwyd yn adroddiad y Pwyllgor Safonau 'Creu'r Diwylliant Cywir'. Ar hyn o bryd, rydym yn sicrhau bod y darparwyr yn gyfarwydd â'n prosesau a'n gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion. Rwyf hefyd yn chwilio am arfer gorau mewn mannau eraill, ac yn rhagweld camau pellach i gryfhau fy rôl yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Byddaf yn parhau i fonitro'r gefnogaeth sydd ei hangen i fodloni gofynion cyfredol a gofynion yn y dyfodol, a byddaf yn ceisio bodloni'r gofynion hynny yn effeithlon ac yn effeithiol.

**1.7.** Fel yr wyf wedi'i wneud mewn adroddiadau blaenorol, hoffwn sôn rywfaint am y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Os yw safonau priodol am gael eu cynnal, mae'n hanfodol bod aelodau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn wrthrychol yn eu hagwedd at eu tasg a'u bod yn gadael eu hymlyniad i'w plaid y tu allan i'r Ystafell Bwyllgora. Yn fy rhyngweithio â'r pwyllgor,

nid wyf wedi cael yr achos lleiaf i feddwl nad yw unrhyw aelod yn gwbl wrthrychol wrth wasanaethu ar y pwyllgor hwn a dyma brofiad fy rhagflaenydd hefyd. Hoffwn dalu teyrnged arbennig i Jayne Bryant AC, sy'n cadeirio'r pwyllgor ac i Meriel Singleton, y clerc.

**1.8.** Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr Comisiwn y Cynulliad a Chlerc y Cynulliad, yn sicrhau bod staff Comisiwn y Cynulliad wrth law i roi cyngor a chymorth i Aelodau'r Cynulliad. Mae'r cymorth hwnnw hefyd ar gael i mi ac mae'n amhrisiadwy wrth fy helpu, er enghraifft, i ddeall sut y mae adnoddau'r Cynulliad ar gael i Aelodau'r Cynulliad a sut y gellir neu na ellir defnyddio'r adnoddau hynny. Rwy'n ddiolchgar iawn am y cymorth hwn

**1.9.** Mae dau aelod o staff y Comisiwn, Jonathan Thomas ac Abigail Phillips, ar secondiad yn fy nghefnogi i gyflawni fy rôl ac i gryfhau a datblygu fy rôl. Nid yw'r trefniant hwn yn peryglu annibyniaeth fy rôl na fy swydd mewn unrhyw ffordd, a heb gymorth o'r fath ni ellid cyflawni fy ngwaith. Hoffwn fynegi fy niolch diffuant i'r ddau ohonynt am eu gwaith, eu hamynedd a'u hiwmor da.

# 2. Cwynion

**2.1.** Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, 43 cafodd fy swyddfa ????? o gwynion. Cafwyd dwy gŵyn dderbyniadwy yn ystod y cam ymchwilio ffurfiol.

**2.2.** Mae Tabl 1 yn dangos y cwynion a ddaeth i law o'i gymharu â'r blynyddoedd diwethaf.

**Tabl 1 – Cymharu'r cwynion a ddaeth i law**

| Blwyddyn | Cwynion a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol | Cwynion a ddaeth i law | Cwynion derbyniadwy | Cwynion a ddygwyd ymlaen |
|---|---|---|---|---|
| **2014-15** | 0 | 19 | 0 | 1 |
| **2015-16** | 1 | 24 | 3 | 3 |
| **2016-17 Gerard Elias QC** | 3 | 19 | 0 | 0 |
| **2016-17 Roderick Evans** | 0 | 10 | 0 | 3 |
| **2017-18** | 3 | 26 | 2 | 3 |
| **2018-19** | 3 | 43 | 2 | 8 |

## Dadansoddi'r cwynion

**2.3.** Ceir isod ddadansoddiad cryno o'r cwynion y gwneuthum benderfyniad yn eu cylch yn 2018-19;

- Arweiniodd dwy gŵyn at ymchwiliad ffurfiol. Ym mhob achos, ystyriwyd adroddiad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac yna'r Cynulliad llawn.

- Cafwyd un gŵyn yn ymwneud â Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Yn unol â'r statud sy'n fy mhenodi, ni allaf wneud sylw ar gwynion yn erbyn Gweinidogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithredu fel y cyfryw nac ymchwilio iddynt. Yn yr achosion hyn, fy arfer

yw egluro hyn i'r achwynydd a hefyd rhoi manylion y person i gysylltu ag ef yn Llywodraeth Cymru i ystyried unrhyw achos o dorri'r cod gweinidogol;

- Cafodd dwy gŵyn eu datrys heb fod angen ymchwilio iddynt yn ffurfiol. Mewn un achos, gwnaed cwyn am y modd yr oedd Aelod wedi siarad ag aelod o staff cymorth. Ar ôl ambell drafodaeth gychwynnol, ymddiheurodd yr Aelod i'r aelod o staff dan sylw, gan fodloni pawb. Mewn achos arall, roedd Aelod wedi dosbarthu deunydd, a oedd yn bennaf yn wleidyddol ei natur, gan ddefnyddio papur â brand y Cynulliad. Roeddwn yn fodlon mai camgymeriad oedd hyn, a'i fod yn ansylweddol ei natur ac nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach. Yn y ddau achos, penderfynais na fyddai symud ymlaen i ymchwiliad ffurfiol o fudd i'r cyhoedd;

- Roedd wyth cwyn yn ymwneud â materion 'perfformiad'; ag enghreifftiau'n cynnwys honiadau nad yw Aelod yn ymateb i negeseuon, canfyddiad o ddiffyg gweithredu ar ran yr Aelod mewn perthynas â mater a godir gan etholwr, neu gŵyn ynghylch natur y cyngor a roddir gan yr Aelod. O dan amgylchiadau o'r fath, byddaf fel arfer yn cysylltu â'r Aelod neu swyddfa'r Aelod i roi gwybod bod cwyn wedi'i gwneud, ond, ar y cyfan, nid wyf yn ystyried materion o'r fath yn achosion posibl o dorri rheolau'r Cod Ymddygiad. Yn y pen draw, bydd perfformiad Aelod Cynulliad yn cael ei farnu gan yr etholwyr yn y blwch pleidleisio ac nid gan y Comisiynydd Safonau.

- Nid aethpwyd ar drywydd pum cwyn gan yr achwynwyr, ar ôl iddynt wneud yr honiad gwreiddiol. Er bod fy swyddfa wedi cysylltu â'r achwynwyr sawl tro i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i ategu a chadarnhau'r gŵyn, ni chafwyd ymateb gan yr achwynydd. Mae pa gamau pellach yr wyf yn eu cymryd mewn achosion o'r fath yn dibynnu ar bwnc y gŵyn a'i difrifoldeb. Yn y pen draw, mae'n anodd iawn symud cwyn ymlaen i ddod i gasgliad boddhaol heb gysylltu a chydweithio â'r achwynydd.

- Cyfeiriwyd tair cwyn ataf gan Glerc Comisiwn y Cynulliad ynghylch peidio â chofrestru buddiant perthnasol o fewn y cyfnod o bedair wythnos a ragnodir gan Reol Sefydlog 2. Ym mhob achos, penderfynais fod hyn yn anfwriadol o ran natur ac nid oedd er budd y cyhoedd i fynd â'r mater ymhellach. Fodd bynnag, ysgrifennais at yr Aelodau dan sylw i'w hatgoffa am eu cyfrifoldebau o ran cofrestru buddiant o fewn y terfyn amser statudol;

- Roedd un gŵyn yn ymwneud â gweithredoedd Aelod yn y Cyfarfod Llawn. O dan fy mhrotocol gyda'r Llywydd, mae materion sy'n digwydd yn y Cyfarfod Llawn yn faterion i'r Llywydd a chyfeiriaf gwynion o'r fath i'w swyddfa er mwyn iddi eu hystyried;
- Roedd un gŵyn, ynghylch methiant honedig yn narpariaeth gwasanaethau cymdeithasol, y tu hwnt i'm cylch gwaith. Mewn achos o'r fath, ni allaf ond cynorthwyo drwy gyfeirio'r achwynydd at y darparwr gwasanaeth a/neu'r corff rheoleiddio perthnasol sy'n ymdrin â chwynion o'r fath;
- Cafwyd 15 cwyn y canfuwyd na wnaethant dorri'r Cod Ymddygiad neu ddarpariaeth berthnasol arall oherwydd nad oedd tystiolaeth o ymddygiad a oedd yn gyfystyr â thorri'r cod. Mae'r cwynion hyn yn cwmpasu amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys;
    - p'un a ddylai Aelod fod wedi datgan buddiant;
    - Aelod yn camarwain etholwr gyda'r cyngor a roddwyd;
    - pwy y mae Aelod yn 'ffrindiau' â hwy ar y cyfryngau cymdeithasol;
    - swm y treuliau a hawliwyd mewn ardal benodol gan Aelod;
    - sylwadau gan Aelod yng nghyfarfod y Pwyllgor;

Ym mhob un o'r achosion uchod, cynhaliais ymholiadau cychwynnol yn eu cylch, ond canfûm nad oedd unrhyw dystiolaeth a fyddai wedi cyfiawnhau ymchwiliad pellach.

# 3. Gweithgareddau eraill

**3.1.** Fel fy rhagflaenydd, rwy'n awyddus i feithrin cysylltiadau gyda'r Comisiynwyr Safonau mewn deddfwrfeydd eraill yn y Deyrnas Unedig i ddysgu o'u profiadau.  Ym mis Mawrth 2018, euthum i gyfarfod y Rhwydwaith Safonau yng Nghaeredin ynghyd â Chomisiynwyr a Chlercod deddfwrfeydd eraill y DU. Ar hyn o bryd, rwy'n gweithio gyda fy nhîm i ystyried ymhellach sut y gallai arfer gorau mewn mannau eraill arwain at welliannau perthnasol a chadarn i'r gweithdrefnau a'r strwythurau yng Nghymru.

**3.2.** Rwyf hefyd yn falch o gadarnhau y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal y digwyddiad Rhwydwaith Safonau nesaf yng Nghaerdydd yng ngwanwyn 2020.

# 4. Gwariant

**4.1.** Yn unol â Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, mae'r Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau bod y cyflog a'r lwfansau y cytunir arnynt yn nhelerau ac amodau fy mhenodiad, ac unrhyw rwymedigaethau rhesymol a gaiff eu hysgwyddo wrth gyflawni fy nyletswyddau, er enghraifft wrth gyflogi staff, sicrhau bod nwyddau neu wasanaethau yn cael eu darparu neu wrth dalu lwfansau neu dreuliau unrhyw bersonau sy'n rhoi tystiolaeth neu sy'n cyflwyno dogfennau, yn cael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru. Mae Tabl 2 yn nodi'r gwariant hwn ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019.

**Tabl 2 – Gwariant (rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019)**

| Mis | Oriau a weithiwyd | Teithio a chynhaliaeth | Cyfanswm cost yr oriau a weithiwyd | Tâl cadw blynyddol | Cyfanswm y tâl bob mis | Cyfraniad Yswiriant Gwladol | Cyfanswm y gost bob mis |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ebr-18 | 29.5 | | 1,579 | 442 | 2,021 | 192 | 2,213 |
| Mai-18 | 22 | | 1,177 | 442 | 1,620 | 135 | 1,754 |
| Meh-18 | 22 | | 1,177 | 442 | 1,620 | 135 | 1,754 |
| Gorffennaf ac Awst-18 | 52 | | 2,783 | 885 | 3,667 | 428 | 4,095 |
| Medi-18 | 20 | | 1,070 | 442 | 1,513 | 119 | 1,632 |
| Hyd-18 | 32 | | 1,712 | 442 | 2,155 | 211 | 2,366 |
| Tach-18 | 46 | | 2,461 | 442 | 2,904 | 318 | 3,222 |
| Rhagfyr a Ionawr-19 | 67.5 | | 3,685 | 902 | 4,587 | 598 | 5,185 |
| Ion-19 (ôl-daliad am godiad cyflog o 01.04.18) | | | | 269 | 269 | | 269 |
| Chw-19 | 27 | | 1,474 | 451 | 1,925 | 178 | 2,104 |
| Maw-19 | 17.5 | | 955 | 451 | 1,406 | 104 | 1,511 |
| Ffioedd D Bain (Comisiynydd Dros Dro) | 80.65 | | | | 4,272 | 514 | 4,786 |
| Teithio a chynhaliaeth D Bain | | 694.66 | | | 695 | | 695 |
| **Cyfanswm** | **416.15** | **694.66** | **18,074** | **5,613** | **28,653** | **2,933** | **31,586** |

Rhoddir cymorth gweinyddol a logistaidd i'm swyddfa gan staff Comisiwn y Cynulliad, a ddarperir fel rhan o ddyletswyddau dau aelod o staff.

**4.2.** Mae'r tabl isod yn dangos cost y cymorth hwn a chyfansymiau cyfunol y Comisiynydd Safonau a chymorth staff

**Tabl 3: Cyfansymiau y Comisiynydd Safonau**

| | Oriau | Costau |
|---|---|---|
| **Comisiynydd** | 336 | £26,105 |
| **Y Comisiynydd dros dro** | 81 | £5,481 |
| **Cyfanswm y Comisiynydd** | 416 | £31,586 |
| **Costau staff** | | £44,798 |
| **Cyfanswm costau** | | £76,384 |

**4.3.** Mae'r tabl isod yn cynnig cymhariaeth â gwariant blynyddoedd blaenorol;


**Tabl 4 Gwariant blynyddol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol**

| | Gwariant (2015-16) | Gwariant (2016-17) | Gwariant (2017-18) | Gwariant (2018-19) |
|---|---|---|---|---|
| Ac eithrio costau staff | £19,858 | £17,889 | £19,715 | £31,586 |
| Gan gynnwys costau staff | £23,600 | £21,959 | £25,471 | £76,384* |

*Yn dilyn yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Safonau, 'Creu'r Diwylliant Cywir', cryfhawyd rôl y Comisiynydd Safonau o ran yr adnoddau a roddir iddo. Yn flaenorol, roedd un aelod o staff y Comisiwn yn ymgymryd â'r rôl gynorthwyol yn rhan-amser. Ers mis Tachwedd 2018, cefnogwyd fy rôl gan ddau aelod o staff ar secondiad, un aelod o staff amser llawn ac un rhan-amser, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y cynnydd mewn costau staffio i gefnogi'r swydd.

# 5. Gwefan y Comisiynydd

**5.1.** Caiff gwefan y Comisiynydd Safonau ei diweddaru yn rheolaidd ac mae'n adlewyrchu natur annibynnol y swydd.  Mae'n cynnwys yr holl adroddiadau, blynyddol ac eraill, sydd wedi'u cyhoeddi yn ogystal â chynorthwyo unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd am nodi mater neu wneud cwyn ynghylch Aelod Cynulliad. Rwyf wedi nodi ffyrdd o wella fy ngwefan a'i defnyddioldeb i ddarpar achwynwyr. Mae gwaith yn mynd rhagddo, a bydd gwelliannau yn cael eu cynnwys yn fy adroddiad blynyddol 2019-20.



**Syr Roderick Evans**
**Comisiynydd Safonau**

**Mehefin 2019**

# 6. Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

## Diben y Cod

1. Diben y Cod Ymddygiad hwn yw:

(a) rhoi canllawiau i holl Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol ar y safonau ymddygiad a ddisgwylir ganddynt wrth gyflawni eu dyletswyddau i'r Cynulliad a'u dyletswyddau cyhoeddus;

(b) bod mor agored ac atebol ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd hyder yn y ffordd y mae Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyflawni eu dyletswyddau i'r Cynulliad a'u dyletswyddau cyhoeddus.

2. Mae'r Cod yn berthnasol i holl Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd heb gymryd cyfnod o absenoldeb o'r gwaith.

## Safonau Ymddygiad Cyffredinol

### Ymddygiad personol

3. Rhaid i Aelodau'r Cynulliad:

(a) gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad;

(b) ymddwyn yn anrhydeddus bob amser;

(c) peidio â derbyn unrhyw arian fel cymhelliant neu dâl am arfer dylanwad seneddol;

(d) peidio â derbyn tâl neu unrhyw fudd materol arall am bleidleisio ar unrhyw Orchymyn neu gynnig, neu ofyn unrhyw gwestiwn yn y Cyfarfod Llawn neu bwyllgor, neu hyrwyddo unrhyw fater, (y rheolau ynghylch “adfocatiaeth ddi-dâl”).

4. Dylai Aelodau'r Cynulliad gadw at y saith egwyddor gyffredinol ynghylch ymddygiad a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau Bywyd Cyhoeddus. Dyma'r saith egwyddor:

(a) **Anhunanoldeb:** Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud penderfyniadau er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa'n ariannol neu'n faterol.

Dylai Aelodau'r Cynulliad osgoi unrhyw wrthdaro rhwng eu buddiannau personol a'u buddiannau cyhoeddus a dylent ddatrys unrhyw wrthdaro rhwng y ddau ar unwaith a hynny o blaid buddiannau'r cyhoedd.

(b) **Uniondeb:** Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus roi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

Dylai Aelodau'r Cynulliad bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal ac yn cryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei Aelodau'n gyffredinol. Ni ddylai'r Aelodau ofyn i weision sifil weithredu mewn unrhyw ffordd a allai gyfaddawdu amhleidioldeb gwleidyddol y Gwasanaeth Sifil neu wrthdaro â Chod y Gwasanaeth Sifil.

(c) **Gwrthrychedd:** Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.

(d) **Atebolrwydd:** Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag archwiliad sy'n addas i'w swydd.

Ni ddylid gwneud unrhyw ddefnydd amhriodol o unrhyw daliad neu lwfans a roddir i Aelodau'r Cynulliad at ddibenion cyhoeddus a rhaid cadw at y rheolau gweinyddol sy'n gysylltiedig â thaliadau a lwfansau tebyg.

(e) **Bod yn agored:** Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a gweithrediadau a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar y wybodaeth onid oes angen am hynny er budd ehangach y cyhoedd.

Ni ddylai Aelodau'r Cynulliad atal unrhyw berson rhag cael gwybodaeth y mae hawl gan y person o dan sylw ei gweld yn ôl y gyfraith, ond ni ddylai ddatgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol, gan gynnwys gwybodaeth gyfrinachol o Bwyllgorau'r Cynulliad, heb ganiatâd oni bai ei bod hi'n rheidrwydd arnynt o dan y gyfraith i wneud hynny. Dylai unrhyw wybodaeth

gyfrinachol a dderbynnir gan yr Aelodau mewn perthynas â'u dyletswyddau swyddogol gael ei defnyddio i gyflawni'r dyletswyddau hynny yn unig ac ni ddylid ei defnyddio er budd personol. Mewn unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â, neu ar ran, sefydliad y mae gan yr Aelod gyswllt ariannol ag ef, gan gynnwys gweithgareddau lle nad oes cofnod cyhoeddus ohonynt megis cyfarfodydd anffurfiol, rhaid i'r Aelodau gadw mewn cof yr angen i fod yn agored gydag Aelodau eraill y Cynulliad, a swyddogion.

(f) **Gonestrwydd:** Mae'n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a dylent gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n diogelu buddiannau cyhoeddus.

(g) **Arweinyddiaeth:** Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo ac ategu'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiampl.

# Safonau ymddygiad penodol

## Datgan Buddiannau

5. Rhaid i Aelodau'r Cynulliad gofrestru'r holl fuddiannau perthnasol a nodwyd yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 2 yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau, er mwyn nodi'n glir unrhyw fuddiannau y gellir eu hystyried yn rhai a fyddai'n dylanwadu ar eu gweithredoedd.

6. Dyma gategorïau'r buddiannau y dylid eu cofrestru (fel y'u nodwyd yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 2)

- Unrhyw gyfarwyddiaethau sydd gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, mewn cwmnïau preifat neu gyhoeddus, gan gynnwys y rhai di-dâl lle ceir cydnabyddiaeth ariannol drwy gwmni arall yn yr un grŵp.

- Cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (heblaw aelodaeth o'r Cynulliad) y mae'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod, yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod unrhyw fuddiant ariannol ynddynt, gan gynnwys derbyn unrhyw arian cyhoeddus.

- Enwau cleientiaid, pan fydd y buddiannau y cyfeiriwyd atynt uchod yn cynnwys gwasanaethau gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, neu sy'n ymwneud mewn rhyw fodd ag aelodaeth o'r Cynulliad neu'n deillio o hynny.

- Rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol, y mae eu gwerth yn uwch na’r hyn a bennir mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad, a dderbynnir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, oddi wrth gwmni, corff neu unigolyn ac sy'n ymwneud mewn rhyw fodd ag aelodaeth o’r Cynulliad neu’n deillio o hynny.

- Unrhyw dâl neu fudd materol y mae’r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, yn ei gael gan unrhyw gwmni preifat neu gyhoeddus neu unrhyw gorff arall sydd, hyd y gŵyr yr Aelod, wedi tendro neu sy’n tendro, am gontract gyda Chomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru, neu sy'n meddu ar gontract.

- Nawdd ariannol (i) fel ymgeisydd yn etholiad y Cynulliad lle, hyd y gŵyr yr Aelod, bod y nawdd mewn unrhyw achos yn fwy na 25 y cant o gostau etholiad yr ymgeisydd neu (ii) fel Aelod o'r Cynulliad gan unrhyw berson neu sefydliad, gan nodi a fydd y cyfryw nawdd yn cynnwys tâl i'r Aelod neu unrhyw fantais neu fudd materol.

- Yn unol ag unrhyw benderfyniad a wnaed gan y Cynulliad, ymweliadau tramor gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, sy'n ymwneud â neu'n deillio o Aelodaeth o'r Cynulliad, os na fydd costau ymweliad o'r fath wedi'u talu'n llawn gan yr Aelod neu gan arian cyhoeddus.

- Unrhyw dir neu eiddo'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, tir neu eiddo partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, y mae iddo werth sylweddol fel y’i pennwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad neu y ceir incwm sylweddol ohono, heblaw unrhyw gartref a ddefnyddir fel cartref personol gan yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod.

- Enwau'r cwmnïau neu gyrff eraill y mae gan yr Aelod fuddiant lles ynddynt naill ai ar ei ben/phen ei hun neu gyda, neu ar ran, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol, neu hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod, neu unrhyw blentyn dibynnol, fuddiant llesol mewn cyfranddaliadau sydd â’u gwerth yn fwy nag un y cant o’r cyfalaf cyfranddaliadau a gyhoeddwyd, neu lai nag un y cant ond mwy na'r swm a bennwyd mewn unrhyw benderfyniad a wnaed gan y Cynulliad.

- Aelodaeth neu gadeiryddiaeth gyda thâl neu’n ddi-dâl sydd gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, ar unrhyw gorff a ariennir yn llwyr neu’n rhannol gan Gomisiwn y Cynulliad neu

Lywodraeth Cymru, lle gŵyr yr Aelod, neu y dylai fod wedi gwybod, bod hynny wedi'i ariannu gan Gomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru.

## Datgan Buddiannau Cofrestradwy

7. Rhaid i Aelodau'r Cynulliad, cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion y Cynulliad, ddatgan unrhyw fuddiant sy'n berthnasol, o dan Reol Sefydlog 2, yng nghyd-destun y drafodaeth neu'r mater sydd o dan sylw. Rhaid i ddatganiad fod yn gysylltiedig â'r penderfyniad a gaiff ei wneud yn y cyfarfod o dan sylw. Rhaid bod yn berthnasol i fater lle gall yr Aelod (neu bartner neu blant dibynnol) elwa'n ariannol o'r penderfyniad, lle byddai'r fantais honno yn fwy na'r hyn a allai gael ei gronni ar gyfer etholwyr yn gyffredinol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn i'r gynulleidfa allu ffurfio barn gytbwys o'r holl ddadleuon.

## Gwahardd pleidleisio mewn perthynas â Buddiannau Cofrestradwy

8. Nid oes gan Aelod yr hawl i bleidleisio mewn unrhyw un o drafodion y Cynulliad os, mewn perthynas ag unrhyw fuddiant y dylid bod wedi'i gofrestru o dan Reol Sefydlog 2, y gallai penderfyniad penodol gan y Cynulliad neu Bwyllgor olygu mwy o fantais ariannol i'r Aelod na'r hyn a allai gael ei gronni ar gyfer etholwyr yn gyffredinol.

## Datgan Buddiannau Perthnasol

9. Ar yr adeg berthnasol yn unrhyw drafodion y Cynulliad, rhaid i'r Aelod ddatgan unrhyw fuddiannau, ariannol neu fel arall, sydd gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, aelod o deulu'r Aelod, neu y maent yn disgwyl eu cael, sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, y gallai fod yn rhesymol i bobl eraill ystyried y byddai hynny'n dylanwadau ar gyfraniad yr Aelod.

## Defnyddio Adnoddau'r Cynulliad

10. Gofynnir i'r Aelodau gydymffurfio â'r Canllawiau i Aelodau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Cynulliad, ac unrhyw ganllawiau ar y defnydd o adnoddau'r Cynulliad sy'n ymwneud yn benodol ag ymgyrchoedd etholiadol.

## Mynediad at wybodaeth gan y cyhoedd

11. Mae egwyddorion Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth ddarparu gwybodaeth wedi'u nodi yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, a gymeradwywyd gan Gomisiwn y Cynulliad. Mae gofyn i Aelodau'r Cynulliad sy'n chwilio am wybodaeth gydymffurfio gyda'r Cod drwy wneud cais ysgrifenedig neu dros e-bost (Assembly-Accesstoinformation@cynulliad.cymru) at y Cynghorwr Mynediad at Wybodaeth, Cynulliad

Cenedlaethol Cymru. Mae'r Cod wedi'i gyhoeddi ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn http://www.assembly.wales/cy/abthome/about_uscommission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx [Agor mewn ffenestr newydd]

## Y gydberthynas rhwng Aelodau'r Cynulliad a Staff y Cynulliad

12. Mae holl staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru (staff Comisiwn y Cynulliad) yn rhwymedig i God Ymddygiad Staff, ac mae staff Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn rhwymedig i God y Gwasanaeth Sifil. Dylai Aelodau barchu egwyddorion y ddau God wrth ymdrin â staff o'r cyrff hyn. Dylai'r gydberthynas rhwng yr Aelodau a staff fod yn broffesiynol, a bod y naill ochr yn parchu'r llall, a dylai'r Aelodau ystyried dyletswydd y staff i fod yn ddiduedd yn wleidyddol wrth gyflawni eu dyletswyddau.

## Cyflogau a Lwfansau Aelodau

13. Gofynnir i'r Aelodau gydymffurfio â Phenderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau a Swyddogion y Cynulliad) (Cyflogau a Lwfansau ac ati). Penderfyniad fel y'i cymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

14. Mae'r Penderfyniad yn nodi'r cyflogau a'r lwfansau y mae gan yr Aelodau yr hawl i'w cael drwy gyflawni dyletswyddau'r Cynulliad.

## Dyletswyddau o ran y Comisiynydd Safonau a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad

15. Bydd yr Aelodau yn cydweithredu, ym mhob cam, ag unrhyw ymchwiliad i'w hymddygiad gan y Comisiynydd Safonau; neu gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i).

16. Ni fydd unrhyw Aelod yn lobïo aelod o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn ffordd y cynllunnir neu y bwriedir iddi ddylanwadu arno/arni pan fydd yn ystyried cwyn ynghylch torri unrhyw un o'r materion a nodir yn Rheolau Sefydlog 22.2(i).

17. Ni ddylai unrhyw Aelod gamliwio unrhyw argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn perthynas ag unrhyw gŵyn y mae wedi'i hystyried o dan Weithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad.

## Gorfodi'r Cod Ymddygiad

18. Ymdrinnir ag unrhyw gyhuddiadau o beidio â chydymffurfio â'r Cod drwy'r broses a nodwyd yng Ngweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn

Aelodau'r Cynulliad, fel y'i cymeradwywyd gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Cynulliad Cenedlaethol.

19. Mae gwybodaeth am rôl y Comisiynydd Safonau, gan gynnwys manylion cyswllt ar gael ar wefan y Cynulliad (www.cynulliad.cymru) neu o swyddfa neu wefan y Comisiynydd (http://comisiynyddsafonaucymru.org [Agor mewn ffenestr newydd]).

# 7. Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad

## Cymeradwywyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar 24 Ebrill 2013

Ymholiadau: Meriel Singleton, Clerc y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

### 1. Darpariaethau cyffredinol

#### Trefniadau gweinyddol

1.1 Dylid gwneud cwynion i'r Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd"), sy'n swyddog statudol annibynnol a benodir o dan Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ("y Mesur"). Bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn logio'r ohebiaeth ac yn anfon llythyr at yr achwynydd i gydnabod bod y gŵyn wedi dod i law. Bydd y llythyr yn egluro nad yw hyn o reidrwydd yn golygu bod y gŵyn yn dderbyniadwy, a bydd yn nodi mai dim ond os yw'r achwynydd yn barod i'r manylion gael eu rhyddhau i'r Pwyllgor ac i'r Aelod sy'n destun y gŵyn y bydd yr achos yn mynd rhagddo. .

#### Ymchwiliadau

1.2 Rhaid i ymchwiliadau o dan y weithdrefn hon gael eu cynnal gan y Comisiynydd yn unol â'r Mesur.

1.3 Pan fydd swydd y Comisiynydd yn wag, neu os na fydd y Comisiynydd, am ba bynnag reswm, yn gallu cynnal ymchwiliad, caiff y Cynulliad benodi rhywun i weithredu fel Comisiynydd dros dro i ymgymryd â swyddogaethau'r swydd honno. Ceir darpariaethau pellach ynghylch penodi Comisiynydd dros dro yn Adran 4 o'r Mesur.

#### Camau

1.4 Pan fydd y Comisiynydd yn ymchwilio i gŵyn, mae dau gam posibl:

**Cam yr Ymchwiliad Rhagarweiniol** sy'n cynnwys ymchwilio a phenderfynu a yw cwyn yn dderbyniadwy; ac

os yw'r gŵyn yn dderbyniadwy, daw'r **Cam Ymchwilio Ffurfiol**, sy'n cynnwys ymchwiliad pellach i'r gŵyn a phroses o adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

**Cynnal ymchwiliadau**

1.5 Yn unol â darpariaethau'r weithdrefn, y Comisiynydd fydd yn penderfynu pa bryd a sut i gynnal ymchwiliadau ym mhob cam.

1.6 Rhaid i bob cam o ymchwiliad i gŵyn gael ei gynnal yn breifat. Fodd bynnag, gall y Comisiynydd, ar unrhyw adeg, adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar hynt ymchwiliad i gŵyn a rhaid gwneud hynny os nad yw'r ymchwiliad ffurfiol wedi cael ei gwblhau o fewn chwe mis i'r dyddiad y mae'r Comisiynydd yn canfod fod cwyn yn dderbyniadwy.

1.7 Os yw ymchwiliad i gŵyn yn mynd rhagddo ar ddechrau cyfnod etholiad y Cynulliad, caiff yr ymchwiliad ei ohirio dros dro a bydd yn ailgychwyn ar ddiwedd cyfnod yr etholiad. Bydd trafodaethau ynghylch cwyn yn erbyn Aelod a gaiff ei ailethol yn dod i ben yn unol â'r weithdrefn hon. O ran Aelod na chaiff ei ailethol, mae'r cosbau y gellir eu defnyddio mewn achos o ganfod methiant i gydymffurfio, yn gyfyngedig a gallai'r Pwyllgor ystyried hynny wrth drafod pa gamau i'w cymryd mewn cysylltiad ag unrhyw adroddiad gan y Comisiynydd ynghylch y gŵyn.

## 2. Cam yr ymchwiliad rhagarweiniol

2.1 Yn ystod y cam hwn, rhaid i'r Comisiynydd ymchwilio a phenderfynu a yw cwyn yn dderbyniadwy ai peidio o fewn telerau paragraff 3 isod. Gall y Comisiynydd gysylltu â'r achwynydd i gasglu rhagor o fanylion ac i holi a yw'n fodlon i'w enw gael ei ryddhau i'r Aelod sy'n destun cwyn ac i'r Pwyllgor. Hefyd, gall y Comisiynydd, yn ôl ei ddisgresiwn, gysylltu â'r Aelod sy'n destun cwyn, os yw'r Comisiynydd o'r farn bod angen gwneud hynny er mwyn penderfynu a yw'r gŵyn yn dderbyniadwy.

2.2 Os cred y Comisiynydd fod y gŵyn yn dderbyniadwy, rhaid i'r Comisiynydd symud ymlaen i Ymchwiliad Ffurfiol i'r gŵyn.

2.3 Os cred y Comisiynydd nad yw'r gŵyn yn dderbyniadwy, rhaid i'r Comisiynydd wrthod y gŵyn, gan hysbysu'r achwynydd a nodi'r rhesymau dros y penderfyniad.

## 3. Derbynioldeb cwynion

3.1 Mae cwyn yn dderbyniadwy o dan y weithdrefn hon:

i. os caiff ei chyflwyno'n ysgrifenedig*,

ii. os yw'n trafod ymddygiad Aelod Cynulliad;

iii. os nad yw'n ddienw a'i bod yn nodi pwy yw'r achwynydd yn glir mewn modd sy'n golygu y gellir cyfathrebu ymhellach ag ef/hi;

iv. os yw'n nodi'n glir pwy yw'r Aelod Cynulliad sy'n destun y gŵyn;

v. os y'i gwneir o fewn blwyddyn i'r dyddiad pan allai'r achwynydd fod wedi dod yn rhesymol ymwybodol o'r ymddygiad y cwynir yn ei gylch; ac

vi. os yw'n ymddangos bod digon o sylwedd i gyfiawnhau ymchwiliad pellach (h.y. mae digon o dystiolaeth i awgrymu bod yr ymddygiad dan sylw wedi digwydd, a phe bai hynny'n cael ei brofi, gallai olygu bod yr Aelod heb gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion Rheol Sefydlog 22.2(i).

## 4. Y cam ymchwilio ffurfiol

4.1 Yn ystod y cam hwn, rhaid i'r Comisiynydd ymchwilio i gŵyn dderbyniadwy gyda'r bwriad o:

i. sefydlu'r ffeithiau mewn cysylltiad â ph'un a yw'r Aelod dan sylw wedi ymddwyn yn y modd a nodir gan y gŵyn ai peidio; a

ii. dod i gasgliad o ran a yw'r Aelod, o ganlyniad i'r ymddygiad hwnnw, wedi methu â chydymffurfio ag un o'r materion a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2(i).

4.2 Pan fo gwaith ymchwilio ffurfiol i gŵyn wedi'i gwblhau, rhaid i'r Comisiynydd lunio adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Rhaid i'r adroddiad gynnwys:

i. manylion am y gŵyn;

ii. manylion am yr ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Comisiynydd;

iii. y ffeithiau a ganfuwyd gan y Comisiynydd mewn perthynas ag a yw'r Aelod dan sylw wedi ymddwyn yn y modd a nodir gan y gŵyn ai peidio, ac unrhyw ffeithiau

---

* *Lle nad yw'r achwynydd yn gallu cyflwyno cwyn yn ysgrifenedig, bydd cyfleusterau ar gael drwy gyfrwng swyddfa'r Comisiynydd fel y gall gytuno ar delerau datganiad ysgrifenedig.*

a ddarperir gan yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r Llysoedd yn achos tystiolaeth wedi cael ei chyfeirio (gweler yr adran ar Dramgwyddau);

iv. casgliad y Comisiynydd o ran a yw'r Aelod, o ganlyniad i'r ymddygiad hwnnw, wedi methu â chydymffurfio ag un o'r materion a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2(i); ond

v. efallai na fydd yn cynnwys unrhyw sylwadau nac argymhellion o ran pa sancsiwn (os o gwbl) a ddylai gael ei roi ar yr Aelod o dan sylw.

vi. pa un a yw'r achwynwr, ym marn y Comisiynydd yn cyfeirio at faterion sy'n ymwneud ag egwyddorion cyffredinol.

Os bydd y Comisiynydd, wrth gynnal yr ymchwiliad, yn dod yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau sy'n codi materion sy'n ymwneud ag egwyddorion cyffredinol neu arfer cyffredinol sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Clerc o dan Adran 138 o'r Ddeddf fel y prif swyddog cyfrifyddu, neu a allai, wrth i'r Clerc ymchwilio ymhellach, roi dyletswydd ar y Clerc o dan Adran 9, rhaid i'r Comisiynydd gyflwyno'r amgylchiadau hynny yn ysgrifenedig, ar wahân, i'r Clerc hefyd.

4.3 Ni fydd adroddiad sy'n dod i'r casgliad bod Aelod wedi methu â chydymffurfio ag un o'r materion o fewn Rheol Sefydlog 22.2(i) yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor oni bai fod copi o'r adroddiad drafft wedi'i roi i'r Aelod a'r achwynydd a'u bod wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol. Os oes sylwadau nad yw'r Comisiynydd yn eu derbyn, rhaid i adroddiad y Pwyllgor nodi manylion am y ffeithiau hyn sy'n destun dadl.

4.4 Rhaid sicrhau bod copïau o adroddiad terfynol y Comisiynydd i Bwyllgor ar ymchwiliad ffurfiol ar gael i'r achwynydd ac i'r Aelod sy'n destun cwyn yr un pryd ag y darperir copïau i'r Pwyllgor.

4.5 Bydd yr Aelod sy'n destun cwyn yn cael ei hysbysu gan y Pwyllgor bod ganddo hawl i:

i. gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor o fewn amser penodol; a

ii. gwneud sylwadau llafar mewn gwrandawiad llafar o'r Pwyllgor.

4.6 Mae adroddiad y Comisiynydd yn parhau i fod yn gyfrinachol hyd nes bod y Pwyllgor wedi gorffen ystyried y gŵyn. Bydd gofyn i'r rhai sy'n cael copi o'r adroddiad barchu ei gyfrinachedd.

## 5. Cydweithrediad yr Aelodau

5.1 Mae'r weithdrefn hon yn seiliedig ar yr egwyddor y bydd Aelodau'r Cynulliad yn cydweithredu'n llwyr ag unrhyw ymchwiliad i gŵyn. Disgwylir i'r Aelodau ymateb yn bersonol bob tro i unrhyw gais gan y Comisiynydd. Yn ystod unrhyw gam o'r broses o ystyried cwyn, os bydd gan Gomisiynydd achos i gredu nad yw unrhyw Aelod yn cydweithredu, ar ôl rhoi hysbysiad o fwriad i wneud hynny i'r Aelod sy'n destun cwyn, gall y Comisiynydd gyflwyno'r farn hon i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Yna, gall y Pwyllgor drefnu i'r adroddiad gael ei gyhoeddi a'i osod gerbron y Cynulliad cyn gynted â phosibl.

5.2 Ni fydd llunio adroddiad o'r fath yn atal y Comisiynydd na'r Pwyllgor rhag parhau i ystyried y gŵyn yn unol â'r weithdrefn hon.

## 6. Tramgwyddau

6.1 Yn ystod unrhyw gam o ystyried cwyn:

(i)os ceir tystiolaeth o ymddygiad a allai gynnwys methiant i gydymffurfio ag adran 36(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i'r Comisiynydd hysbysu'r Clerc ar unwaith. Rhaid i'r Clerc gyfeirio'r papurau o dan sylw i'r Heddlu yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gyda'r Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

(ii)os ceir tystiolaeth o ymddygiad a allai olygu cyflawni unrhyw dramgwydd arall, yn amodol yn unig i'r disgwyliad y bydd tystiolaeth o'r fath yn cael ei chyfeirio at yr Heddlu fel arfer, bydd y Comisiynydd yn defnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu a fydd y mater yn cael ei gyfeirio at yr Heddlu, a phryd a sut y bydd hynny'n digwydd.

6.2 O dan amgylchiadau o'r fath, bydd yr holl waith o ystyried y gŵyn o dan y weithdrefn hon yn cael ei ohirio dros dro hyd nes bod casgliadau terfynol ymchwiliad yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r Llysoedd yn hysbys.

## 7. Ystyriaeth gan y Pwyllgor Safonau

### Ystyriaeth gychwynnol

7.1 Yn gyntaf, bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat i ystyried manylion y gŵyn, ond ni fydd yn cyflwyno unrhyw gasgliadau o sylwedd am y gŵyn yn ystod y cam hwn. Diben y cyfarfod preifat fydd ystyried adroddiad y Comisiynydd, ac unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig arall a wêl yn berthnasol i benderfynu:

(a) a ddylid gwahodd unrhyw dystion i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor mewn gwrandawiad llafar; a

(b) a ddylai'r Pwyllgor ystyried y gŵyn yn gyhoeddus ynteu'n breifat.

7.2 Gall y Pwyllgor ystyried hefyd sut y mae'n cynnig y dylid holi'r Aelod neu'r tystion.

7.3 Ni chaiff y Comisiynydd Safonau fod yn bresennol yn y cyfarfod preifat cychwynnol hwn oni bai fod y Pwyllgor yn estyn gwahoddiad iddo.

7.4 Yn unol â Rheol Sefydlog 22.5, lle mae Aelod o'r Pwyllgor yn destun cwyn, ni chaiff gymryd unrhyw ran yng ngwaith y Pwyllgor o ystyried y gŵyn. O dan yr amgylchiadau hynny, caiff Aelod arall o'r un grŵp gwleidyddol gymryd lle'r Aelod hwnnw yn unol â'r trefniadau a nodir yn y Rheolau Sefydlog.

### Gwrandawiad llafar

7.5 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat - oni bai ei fod wedi penderfynu, ar ôl ystyried amgylchiadau'r achos ac unrhyw gyngor a gafwyd gan y Comisiynydd Safonau neu ar ran Clerc y Cynulliad, y dylai gyfarfod yn gyhoeddus - i ystyried:

i. unrhyw dystiolaeth neu sylwadau llafar neu ysgrifenedig y mae'r Aelod sy'n destun cwyn yn dymuno eu cyflwyno; ac

ii. unrhyw dystiolaeth lafar neu ysgrifenedig gan dystion.

Gall y Comisiynydd gael ei wahodd i roi tystiolaeth yn y cyfarfod, yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.

7.6 Mewn unrhyw wrandawiad llafar, caiff cynghorydd ddod yn gwmni i'r Aelod sy'n destun cwyn neu i unrhyw dystion sy'n dewis rhoi tystiolaeth.

7.7 Darperir trawsgrifiad gair-am-air o drafodion unrhyw wrandawiadau llafar. Y rhagdybiaeth gyffredinol yw mai dim ond er mwyn cael eglurhad o faterion ffeithiol y bydd y Pwyllgor yn gofyn cwestiynau i'r Aelod neu i'r tystion. Byddai gan yr Aelod neu unrhyw dyst yr hawl i ofyn a chael atebion i gwestiynau ffeithiol am faterion gweithdrefnol neu dechnegol; nid oes ganddynt yr hawl i gwestiynu'r Comisiynydd na'r Pwyllgor am faterion eraill.

7.8 Os daw rhywun gyda'r Aelod neu'r tystion, caiff y Cadeirydd roi caniatâd i'r person hwnnw gyflwyno sylwadau ar lafar a byddai'r un rheolau'n berthnasol.

### Y Pwyllgor yn ystyried ei benderfyniad

7.9 Yn dilyn unrhyw wrandawiad llafar bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat i ystyried a yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio ag un o'r materion a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2(i) a pha gamau, os o gwbl, y dylai gynghori'r Cynulliad i'w cymryd os canfyddir methiant i gydymffurfio.

7.10 Er mwyn i'r Pwyllgor benderfynu gwneud argymhelliad, yn unol â'r hyn a fanylir ym mhwnt 7.11, rhaid cael mwyafrif clir o blaid yr argymhelliad.

### Argymhellion y Pwyllgor

7.11Gall y Pwyllgor benderfynu:

i. na chanfuwyd unrhyw fethiant i gydymffurfio ac y dylid gwrthod y gŵyn;

ii. y canfuwyd methiant i gydymffurfio ond ei fod yn ddibwys ac y dylid gwrthod y gŵyn;

Neu, yn amodol ar unrhyw apêl gan yr Aelod dan sylw, gall y Pwyllgor benderfynu argymell i'r Cynulliad:

iii. y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach;

iv. y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid "ceryddu" yr Aelod o dan Reol Sefydlog 22.10; neu

v. y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid gwahardd yr Aelod o drafodion y Cynulliad am gyfnod penodol yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

## 8. Y weithdrefn adrodd ac apelio

8.1 Cyn gynted â phosibl ar ôl penderfyniad y Pwyllgor, rhaid rhoi copi o adroddiad y Pwyllgor i'r Aelod sy'n destun y gŵyn, a rhaid i bob parti drin yr adroddiad hwn yn gyfrinachol. Yn yr achosion hynny pan fydd y Pwyllgor wedi ystyried y gŵyn yn breifat, a lle nad oes methiant i gydymffurfio neu y gwrthodwyd y gŵyn, rhaid trefnu i'r adroddiad fod yn ddienw.

Lle mae'r Pwyllgor wedi canfod bod Aelod wedi methu â chydymffurfio, ac nad yw'r Pwyllgor yn argymell y dylid gwrthod y gŵyn, gall yr Aelod sy'n destun y gŵyn apelio i'r Llywydd o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad pan gaiff copi o adroddiad y Pwyllgor.

Rhaid i'r Pwyllgor gyhoeddi adroddiad o'i ystyriaethau a'i osod gerbron y Cynullid ynghyd ag adroddiad y Comisiynydd i'r Pwyllgor. Lle mae'r Llywydd yn hysbysu'r Pwyllgor bod apêl wedi'i wneud, ni chaiff y Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad na'i osod gerbron y Cynulliad hyd nes bod y gwaith o ystyried yr apêl wedi'i gwblhau.

Os caiff cwyn ei chyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor o dan baragraff 8.5 i, rhaid i'r Pwyllgor, ar ddiwedd ei ystyriaeth bellach o'r gŵyn, baratoi adroddiad diwygiedig. Yna, bydd paragraff 8.1 yn berthnasol i'r adroddiad diwygiedig yn hytrach na'r adroddiad gwreiddiol.

### Penodi person i ystyried apêl

8.2 Rhaid i'r Llywydd, ar bob achlysur, benodi person annibynnol â chymhwyster yn y gyfraith i benderfynu ar yr apêl. Ni chaniateir i'r person a benodir fod yn Aelod Cynulliad nac yn aelod o staff y Cynulliad, a rhaid penodi'r person hwnnw, ar gais y Llywydd, gan yr Uwch Farnwr Llywyddol ar gylchdaith Cymru.

8.3 Ar ôl enwebu'r person annibynnol â chymhwyster yn y gyfraith, ond cyn y penodiad, bydd y Llywydd yn rhoi cyfle i'r Aelod sy'n destun y gŵyn, gyflwyno sylwadau ysgrifenedig dros beidio â phenodi'r person dan sylw, o fewn pum niwrnod gwaith o gael gwybod enw'r enwebai. Os bydd y Llywydd yn derbyn unrhyw sail fel rheswm dilys ac yn penderfynu peidio â phenodi'r person a enwebwyd, bydd yn gofyn am enwebiad arall fel ym mharagraff 8.2.

Ystyried apelau

8.4 Dim ond ar y seiliau a ganlyn y caiff apelau eu hystyried:

- i. bod casgliadau'r Pwyllgor yn seiliedig ar anghywirdebau ffeithiol sylweddol nad oedd y Pwyllgor yn ymwybodol ohonynt, ond pe baent wedi bod yn ymwybodol ohonynt, y gallent fod wedi arwain y Pwyllgor i gasgliadau gwahanol;
- ii. bod afreoleidd-dra gweithdrefnol a oedd yn rhagfarnu yn erbyn hawl yr Aelod i gael gwrandawiad teg.

8.5 Dim ond adroddiadau'r Comisiynydd a'r Pwyllgor ac unrhyw sylwadau ysgrifenedig eraill a wnaiff yr apelydd y bydd y person annibynnol â chymhwyster yn y gyfraith yn eu hystyried. Ni fydd y person hwnnw yn cynnal gwrandawiadau llafar nac yn ystyried sylwadau o unrhyw ffynhonnell arall.

8.6 Rhaid i'r person a benodir i benderfynu'r apêl baratoi adroddiad o'i ystyriaethau o'r apêl, a'i roi i'r Aelod ac i'r Pwyllgor, ac:

i. os yw sail yr apêl yn cael ei gadarnhau, bydd yn cadarnhau'r apêl ac yn cyfeirio'r gŵyn yn ôl i'r Pwyllgor i'w hystyried ymhellach; neu

ii. gwrthod yr apêl.

8.7 Rhaid i'r Pwyllgor osod adroddiad y person a benodir i benderfynu ar yr apêl gerbron y Cynulliad, ynghyd ag adroddiad y Comisiynydd ac adroddiad neu (os cyfeiriwyd y mater yn ôl i'r Pwyllgor o dan baragraff 86.1) adroddiad diwygiedig y Pwyllgor ei hun.

Yn yr achosion hynny lle mae'r Pwyllgor wedi ystyried y gŵyn yn breifat, a lle mae'r Pwyllgor, ar ôl iddi gael ei chyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor gan y person a benodwyd i benderfynu ar yr apêl, wedi gwrthod y gŵyn, rhaid i'r Pwyllgor drefnu i'w adroddiad diwygiedig ac i un y person a benodwyd i benderfynu'r apêl, fod yn ddienw.

## 9. Ystyriaeth gan y Cynulliad

Pan na fydd apêl neu pan na fydd apêl yn llwyddiannus.

9.1 Pan na fydd apêl yn llwyddiannus neu pan na chaiff apêl ei wneud i'r Llywydd a phan nad yw'r Pwyllgor yn penderfynu gwrthod y gŵyn, rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau gyflwyno cynnig yn galw ar y Cynulliad i gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor. Ni fydd cynigion o'r fath yn destun gwelliannau. Rhaid gwneud amser i drafod y cynnig cyn gynted â phosibl.

## 10.Unioni methiant neu wrthod y gŵyn

10.1 Yn ystod ymchwiliad, lle nad yw'r ffeithiau'n destun dadl a bod yr Aelod yn unioni neu'n ymddiheuro ar unwaith am fân fethiant yn ddi-oed, gall y Comisiynydd argymell i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau y dylid dod â'r ymchwiliad i ben. Os yw'r Cadeirydd yn cytuno, dylai'r Comisiynydd hysbysu'r Aelod a'r achwynydd er y canfuwyd achos o fethiant, na chymerir unrhyw gamau pellach yn erbyn yr Aelod.

10.2 Os mai'r Cadeirydd yw testun y gŵyn, gall y Comisiynydd argymell i aelod o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a enwebwyd gan y Pwyllgor, weithredu yn y cyswllt hwn. Bydd Clerc y Pwyllgor yn sicrhau bod aelod o'r Pwyllgor yn cael ei enwebu.

10.3 Yn yr amgylchiadau hyn, nid oes angen i'r Comisiynydd gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Safonau heblaw i argymell unrhyw gamau gweithredu y gall fod eu hangen i egluro neu ddehongli rheolau ar gyfer y dyfodol. Pan fo'r Comisiynydd yn dewis adrodd yn y modd hwn, nid oes rhaid nodi enw'r Aelod a'r achwynydd.

# 8. Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

MESUR gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sefydlu Comisiynydd i ymchwilio i gwynion am ymddygiad Aelodau Cynulliad ac i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad ar ganlyniad ymchwiliadau o'r fath; ac at ddibenion sy'n gysylltiedig â hynny.

Mae'r Mesur hwn, a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 14 Hydref 2009 ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 9 Rhagfyr 2009, yn deddfu'r darpariaethau a ganlyn:–

## Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### 1 Y Comisiynydd

(1) Bydd Comisiynydd Safonau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y cyfeirir ato yn y Mesur hwn fel "y Comisiynydd").

(2) Mae'r Comisiynydd i'w benodi gan y Cynulliad.

(3) Nid yw person yn gymwys i'w benodi'n Gomisiynydd os yw'r person hwnnw–

(a) yn Aelod Cynulliad,

(b) wedi bod yn Aelod Cynulliad ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 2 flynedd cyn y dyddiad y mae'r penodiad i ddod i rym,

(c) yn aelod o staff y Cynulliad,

(d) wedi bod yn aelod o staff y Cynulliad ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 2 flynedd cyn y dyddiad y mae'r penodiad i ddod i rym,

(e) yn aelod o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru, neu

(f) wedi bod yn aelod o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 2 flynedd cyn y dyddiad y mae'r penodiad i ddod i rym.

(4) Mae'r Comisiynydd i'w benodi am gyfnod o chwe blynedd.

(5) Ni chaniateir i berson sydd wedi dal swydd y Comisiynydd gael ei benodi am gyfnod arall (yn olynol neu beidio).

(6) Gall person sydd wedi'i benodi fel Comisiynydd ar unrhyw adeg-

(a) ymddiswyddo drwy hysbysiad a roddir i'r Cynulliad, neu

(b) gael ei ddiswyddo ar unrhyw adeg gan y Cynulliad.

(7) Ni chaniateir i berson gael ei ddiswyddo o swydd y Comisiynydd o dan is-adran (6)(b) oni bai–

(a) bod y Cynulliad yn penderfynu felly, a

(b) bod nifer y pleidleisiau a fwrir o blaid y penderfyniad, os caiff y penderfyniad ei basio drwy bleidlais, heb fod yn llai na dau draean o gyfanswm y pleidleisiau a fwrir.

(8) Mae penodiad person yn Gomisiynydd yn dod i ben os bydd y person hwnnw–

(a) yn dod yn ymgeisydd i fod yn Aelod Cynulliad dros un o etholaethau'r Cynulliad neu dros un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad,

(b) yn cael ei benodi'n Gwnsler Cyffredinol, neu ei ddynodi i arfer swyddogaethau'r swydd honno, o dan adran 49 o'r Ddeddf, neu,

(c) yn cael ei benodi'n aelod o staff y Cynulliad neu o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## 2 Prif nod y Comisiynydd

Prif nod y Comisiynydd wrth arfer swyddogaethau o dan y Mesur hwn yw hybu, annog a diogelu safonau ymddygiad uchel yn swydd gyhoeddus Aelod Cynulliad.

## 3 Rhagor o ddarpariaethau ynghylch y Comisiynydd

Mae'r Atodlen yn gwneud rhagor o ddarpariaethau ynghylch y Comisiynydd.

## 4 Penodi Comisiynydd Dros Dro

(1) Pan fydd swydd y Comisiynydd yn wag neu pan fydd y Comisiynydd, am unrhyw reswm, yn methu â gweithredu, caiff y Cynulliad benodi person i gyflawni swyddogaethau'r swydd honno naill ai'n gyffredinol neu mewn perthynas ag unrhyw achos neu ddosbarth o achosion, a hynny

hyd at unrhyw amser a bennir gan delerau ac amodau'r penodiad hwnnw; a chyfeirir at berson a benodir felly yn yr adran hon fel y "Comisiynydd dros dro".

(2) Caiff y Comisiynydd a'r Comisiynydd dros dro ill dau gyflawni swyddogaethau swydd y Comisiynydd ar yr un pryd ond mewn perthynas ag achosion gwahanol.

(3) Nid yw person nad yw'n gymwys i'w benodi'n Gomisiynydd yn gymwys i'w benodi'n Gomisiynydd dros dro.

(4) Mae person a benodir yn Gomisiynydd dros dro-

(a) yn gallu ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy hysbysiad a roddir i'r Cynulliad,

(b) yn gallu cael ei ddiswyddo ar unrhyw adeg gan y Cynulliad,

(c) yn peidio â dal y swydd o dan yr amgylchiadau a bennir yn adran 1(8)(a), (b) a (c),

(d) fel arall yn dal y swydd ar unrhyw delerau ac amodau a bennir gan y Cynulliad, ac

(e) i'w drin i bob diben (ac eithrio dibenion adran 1), tra bydd yn dal y swydd honno, fel y Comisiynydd.

### 5 Annibyniaeth y Comisiynydd

Yn ddarostyngedig i adran 19, wrth iddo arfer unrhyw swyddogaethau, nid yw'r Comisiynydd i ddod o dan gyfarwyddyd neu reolaeth y Cynulliad.

## Swyddogaethau'r Comisiynydd

### 6 Swyddogaethau'r Comisiynydd

(1) Swyddogaethau'r Comisiynydd yw–

(a) derbyn unrhyw gŵyn bod ymddygiad Aelod Cynulliad, ar adeg berthnasol, wedi methu â chydymffurfio ag un o ofynion darpariaeth berthnasol,

(b) ymchwilio i unrhyw gŵyn o'r fath yn unol â darpariaethau'r Mesur hwn,

(c) cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar ganlyniad unrhyw ymchwiliad o'r fath,

(d) cynghori Aelodau Cynulliad ac aelodau'r cyhoedd am y gweithdrefnau ynglŷn â gwneud cwynion ac ymchwilio i gwynion y mae paragraff (a) yn gymwys iddynt, a y swyddogaethau eraill a roddir gan adran 7.

(e) y swyddogaethau eraill a roddir gan adran 7.

(2) Ystyr "adeg berthnasol" yw adeg pan oedd y gofyniad o dan sylw mewn grym ond nid yw'n berthnasol a honnir bod yr ymddygiad o dan sylw wedi digwydd cyn i'r adran hon ddod i rym neu ar ôl hynny.

(3) Ystyr "darpariaeth berthnasol" yw–

(a) unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â'r canlynol–

(i) cofrestru neu ddatgan buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill,

(ii) hysbysiadau gan Aelodau Cynulliad ynglŷn â'u haelodaeth o gymdeithasau,

(iii) cofrestru neu hysbysu unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud ag Aelodau Cynulliad neu â phersonau sy'n gysylltiedig ag Aelodau Cynulliad.

(b) unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad sy'n ymwneud â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill Aelodau Cynulliad,

(c) unrhyw God Ymddygiad a gymeradwyir gan y Cynulliad sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau Cynulliad,

(d) unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau Cynulliad, ac

(e) unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir yn y Rheolau Sefydlog (neu mewn unrhyw god neu brotocol a wneir oddi tanynt) yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf.

(4) Nid yw'n berthnasol a ddaeth darpariaeth berthnasol i rym cyn i'r adran hon ddod i rym neu ar ôl hynny.

## 7 Swyddogaethau eraill y Comisiynydd

Caiff y Comisiynydd (ac os gofynnir iddo wneud hynny gan y Cynulliad mae'n rhaid iddo) roi cyngor i'r Cynulliad–

(a) ar unrhyw fater arall o egwyddor gyffredinol sy'n ymwneud â darpariaethau perthnasol neu â safonau ymddygiad Aelodau Cynulliad yn gyffredinol,

(b) ar weithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion bod Aelodau Cynulliad wedi methu â chydymffurfio â gofynion darpariaethau perthnasol,

(c) ar unrhyw fater sy'n ymwneud â hybu, annog a diogelu safonau ymddygiad uchel yn swydd gyhoeddus Aelod Cynulliad.

## 8 Cod Gweinidogol

(1) Nid oes dim yn y Mesur hwn sy'n awdurdodi'r Comisiynydd i fynegi barn ar–

(a) unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â safonau ymddygiad a gynhwysir mewn Cod Cymreig ar gyfer Gweinidogion,

(b) unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â safonau ymddygiad a allai gael ei chynnwys mewn Cod Cymreig ar gyfer Gweinidogion,

(c) unrhyw honiad bod ymddygiad unrhyw berson yn groes i ddarpariaeth sy'n ymwneud â'r safonau ymddygiad a gynhwysir mewn Cod Cymreig ar gyfer Gweinidogion, neu

(d) effeithiolrwydd unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir mewn Cod Cymreig ar gyfer Gweinidogion, mewn perthynas ag unrhyw ymddygiad penodol neu yn gyffredinol.

(2) At ddibenion yr adran hon–

(a) ystyr "Cod Cymreig ar gyfer Gweinidogion" yw unrhyw ddogfen (pa fodd bynnag y disgrifir y ddogfen honno) sy'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â safonau ymddygiad–

(i) sydd wedi'i chyhoeddi drwy awdurdod y Prif Weinidog neu o dan ei awdurdod,

(ii) sy'n gymwys i'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, neu i unrhyw un ohonynt,

(iii) sy'n ymwneud â safonau ymddygiad yn y swyddi hynny, a

(iv) sy'n ceisio cymhwyso safonau ymddygiad sy'n wahanol i'r rheini sy'n gymwys i Aelodau'r Cynulliad yn gyffredinol, neu sy'n ychwanegol atynt, a

(b) mae darpariaeth sy'n ymwneud â safonau ymddygiad yn un a allai gael ei chynnwys mewn Cod Cymreig ar gyfer Gweinidogion os yw'r ddarpariaeth honno'n bodloni gofynion paragraff

# Swyddogaethau'r Clerc

## 9 Dyletswydd y Clerc i gyfeirio mater at y Comisiynydd

Os oes gan y Clerc sail resymol dros amau–

(a) bod ymddygiad Aelod Cynulliad, ar adeg berthnasol, wedi methu â chydymffurfio â gofyniad mewn darpariaeth berthnasol, a

(b) bod yr ymddygiad o dan sylw yn berthnasol i swyddogaethau'r Clerc o dan adran 138 o'r Ddeddf (y Clerc i fod yn brif swyddog cyfrifyddu i'r Comisiwn), rhaid i'r Clerc fynegi'r sail honno mewn ysgrifen i'r Comisiynydd a rhaid i'r Comisiynydd drin yr ohebiaeth fel cwyn y mae adran 6(1)(a) yn gymwys iddi.

# Ymchwilio i Gwynion

## 10 Ymchwilio i gwynion gan y Comisiynydd

(1) Rhaid i'r Comisiynydd ymchwilio i gwynion ac, yn ddarostyngedig i is-adran (3), rhaid iddo gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar ganlyniad ymchwiliadau, yn unol â'r canlynol–

(a) darpariaethau'r Rheolau Sefydlog, a

(b) unrhyw reolau sy'n ymwneud ag ystyried cwynion yn erbyn Aelodau Cynulliad sydd wedi'u mabwysiadu gan y Cynulliad o dan y Rheolau Sefydlog.

(2) Yn ddarostyngedig i is-adran (1), mater i'r Comisiynydd yw penderfynu pryd a sut y dylid cynnal ymchwiliad a chyflwyno adroddiad ar ei ganlyniad.

(3) O dan unrhyw amgylchiadau a ragnodir gan reolau y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b), caiff y Comisiynydd wrthod cwyn yn ddiannod heb gyflwyno adroddiad arni i'r Cynulliad ond rhaid yn hytrach iddo gyflwyno adroddiad mewn ysgrifen i'r Aelod Cynulliad o dan sylw ac i'r person a wnaeth y gŵyn, gan roi rhesymau dros ei gwrthod.

(4) Ni chaiff adroddiad gan y Comisiynydd i'r Cynulliad ar ganlyniad ymchwiliad gynnwys argymhelliad ynghylch pa sancsiwn a ddylai gael ei orfodi ar yr Aelod Cynulliad o dan sylw, os dylai unrhyw sancsiwn gael ei orfodi o gwbl.

(5) Os caiff y Comisiynydd wybod, wrth gynnal ymchwiliad, am unrhyw amgylchiadau–

(a) sy'n codi materion o egwyddor neu o arfer cyffredinol sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Clerc o dan adran 138 o'r Ddeddf (y Clerc i fod yn brif swyddog cyfrifyddu i'r Comisiwn) , neu

(b) a allai, ar ôl rhagor o ystyriaeth gan y Clerc, arwain at ddyletswydd ar y Clerc o dan adran 9, rhaid i'r Comisiynydd fynegi'r amgylchiadau hynny mewn ysgrifen i'r Clerc.

# Pwerau Ymchwilio'r Comisiynydd

## 11 Pŵer i alw am dystion a dogfennau

(1) Yn unol ag adran 12, caiff y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson–

(a) dod gerbron y Comisiynydd er mwyn rhoi tystiolaeth, neu

(b) cyflwyno i'r Comisiynydd ddogfennau sydd ym meddiant y person hwnnw neu sydd o dan ei reolaeth, ynghylch unrhyw fater sy'n berthnasol i ymchwiliad y mae'r Comisiynydd yn ei gynnal o dan y Mesur hwn.

(2) At ddibenion yr adran hon,

(a) cymerir bod person yn cydymffurfio â gofyniad i gyflwyno dogfen os bydd y person hwnnw'n cyflwyno copi o'r ddogfen neu ddarn o'r rhan berthnasol ohoni,

(b) ystyr "dogfen" yw unrhyw beth y mae gwybodaeth wedi'i chofnodi ynddo ar unrhyw ffurf, ac

(c) mae cyfeiriadau at gyflwyno dogfen yn gyfeiriadau at gyflwyno'r wybodaeth a gofnodwyd ynddi ar ffurf weladwy a darllenadwy.

(3) Caiff y Comisiynydd dalu unrhyw lwfansau a threuliau rhesymol i bersonau sy'n rhoi tystiolaeth gerbron y Comisiynydd, neu sy'n cyflwyno dogfennau i'r Comisiynydd, yn unol â phenderfyniad y Comisiynydd.

## 12 Tystion a dogfennau: hysbysu

(1) Yr unig fodd i ofyniad o dan adran 11 gael ei orfodi ar berson yw i'r Comisiynydd roi i'r person o dan sylw hysbysiad mewn ysgrifen sy'n pennu–

(a) yr amser a'r lle y mae'r person i fod yn bresennol a'r pynciau penodol y mae'n ofynnol i'r person roi tystiolaeth yn eu cylch,

(b) y dogfennau, neu'r mathau o ddogfennau, y mae'r person i'w cyflwyno, erbyn pa bryd ac i ba berson y maent i'w cyflwyno a'r pynciau penodol y gofynnir amdanynt yn eu cylch.

(2) Mae hysbysiad o dan is-adran (1) i'w roi–

(a) yn achos unigolyn, drwy ei anfon yn unol ag is-adran (3) wedi'i gyfeirio at y person yng nghyfeiriad arferol neu gyfeiriad hysbys diwethaf y person neu, os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno'r hysbysiad, yn y cyfeiriad hwnnw, neu

(b) mewn unrhyw achos arall, drwy ei anfon felly wedi'i gyfeirio at y person yn swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r person, ond dim ond os yw'r cyfeiriad o dan sylw yng Nghymru neu yn Lloegr y caniateir iddo gael ei roi.

(3) Mae hysbysiad wedi'i anfon yn unol â'r is-adran hon os yw wedi'i anfon–

(a) drwy wasanaeth post cofrestredig (o fewn ystyr Deddf Gwasanaethau Post 2000 (p.26)), neu

(b) drwy wasanaeth post sy'n darparu ar gyfer cofnodi'r ffaith ei fod wedi cyrraedd pen ei daith drwy'r post.

## 13 Llwon a chadarnhadau

Caiff y Comisiynydd–

(a) gweinyddu llw neu gadarnhad i unrhyw berson sy'n rhoi tystiolaeth i'r Comisiynydd, a

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw dyngu llw neu roi cadarnhad.

## 14 Braint ac imiwnedd buddiant cyhoeddus

(1) Nid yw unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 11(1) yn ei gwneud yn ofynnol i berson ateb unrhyw gwestiwn na chyflwyno unrhyw ddogfen y byddai gan y person hwnnw hawl i wrthod ei ateb neu ei chyflwyno mewn achos mewn llys yng Nghymru neu Loegr.

(2) Nid yw'n ofynnol o dan adran 11(1) i berson sy'n gweithredu fel erlynydd mewn achos troseddol ateb unrhyw gwestiwn na chyflwyno unrhyw ddogfen ynghylch sut mae'r system erlyn troseddol yn gweithredu mewn unrhyw achos penodol os yw'r person hwnnw (neu, os yw is-adran (3) yn gymwys, y Cwnsler Cyffredinol) o'r farn y gallai ateb y cwestiwn neu gyflwyno'r ddogfen ragfarnu trafodion troseddol yn yr achos neu y byddai fel arall yn groes i fuddiant y cyhoedd.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys os cafodd yr achos ei sefydlu gan Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol, neu ar eu rhan.

## 15 Tramgwyddau

(1) Mae person y rhoddwyd hysbysiad iddo o dan adran 12(1) yn cyflawni tramgwydd os yw'r person hwnnw–

(a) yn gwrthod neu'n methu heb esgus rhesymol â dod gerbron y Comisiynydd yn unol â gofynion yr hysbysiad,

(b) yn gwrthod neu'n methu heb esgus rhesymol, pan fo'n dod gerbron y Comisiynydd yn unol â gofynion yr hysbysiad, ag ateb unrhyw gwestiwn ynghylch y pynciau a bennwyd yn yr hysbysiad,

(c) yn gwrthod neu'n methu heb esgus rhesymol â chyflwyno unrhyw ddogfen y mae'n ofynnol ei chyflwyno o dan yr hysbysiad, neu

(d) yn mynd ati'n fwriadol i newid, atal, celu neu ddinistrio unrhyw ddogfen o'r fath.

(2) Mae is-adran (1) yn ddarostyngedig i adran 14.

(3) Mae unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol, yn gwrthod tyngu llw neu roi cadarnhad pan fo'n ofynnol iddo wneud hynny o dan adran 13 yn cyflawni tramgwydd.

(4) Os bydd person a gyhuddir o dramgwydd o dan is-adran (1)(a), (b) neu (c) neu o dan is-adran (3) yn cyflwyno tystiolaeth o esgus rhesymol dros wrthod neu fethu, mater i'r erlyniad yw profi nad oedd gan y person esgus o'r fath.

(5) Mae person sy'n euog o dramgwydd o dan yr adran hon yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod–

(a) i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol,

(b) i gael ei garcharu am gyfnod heb fod yn fwy na thri mis, neu

(c) i'r ddau.

(6) Os profir bod tramgwydd o dan yr adran hon wedi'i gyflawni gan gorff corfforaethol drwy gydsyniad neu ymoddefiad, neu wedi'i briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran–

(a) cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall yn y corff corfforaethol, neu

(b) unrhyw berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath, bydd y person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r tramgwydd hwnnw a bydd yn agored i gael ei erlyn yn unol â hynny.

(7) Yn is-adran (6) ystyr "cyfarwyddwr", yn achos corff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.

## 16 Cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth

(1) Ac eithrio fel y caniateir gan is-adran (2), rhaid i'r Comisiynydd neu staff y Comisiynydd, neu unrhyw berson arall a benodir gan y Comisiynydd beidio â datgelu unrhyw wybodaeth a gynhwysir yn y gŵyn nac unrhyw wybodaeth a roddir iddynt neu a sicrheir ganddynt yn ystod ymchwiliad i'r gŵyn honno, neu at ddibenion yr ymchwiliad hwnnw.

(2) Caniateir i wybodaeth felly gael ei datgelu er mwyn–

(a) galluogi neu helpu'r Comisiynydd i gyflawni unrhyw swyddogaethau a osodir ar y Comisiynydd neu a roddir iddo yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur hwn,

(b) galluogi'r Comisiynydd i gydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a osodir ar y Comisiynydd gan neu o dan unrhyw ddeddfiad arall, neu

(c) ymchwilio i unrhyw dramgwydd neu dramgwydd a amheuir neu eu herlyn.

## 17 Diogelu rhag achosion difenwi

(1) At ddibenion y gyfraith ar ddifenwi, mae unrhyw ddatganiad a wneir yn unol â dibenion y Mesur hwn–

(a) gan y Comisiynydd, neu

(b) i'r Comisiynydd o dan fraint lwyr.

(2) Yn is-adran (1), mae i "datganiad" yr un ystyr ag sydd i "statement" yn Neddf Difenwi 1996 (p. 31).

## 18 Darpariaeth drosiannol

(1) Caiff y Cynulliad ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gynnal ymchwiliad i unrhyw gŵyn sydd, ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym, wedi dod i law, neu'n destun ymchwiliad, o dan reolau y cyfeirir atynt yn adran 10(1)(b).

(2) Caiff unrhyw ofyniad o'r fath gyfarwyddo'r Comisiynydd i gymryd i ystyriaeth unrhyw wybodaeth mewn cysylltiad â'r gŵyn a bennir yn y cyfarwyddyd.

(3) Yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad o'r fath, mae unrhyw gŵyn y cyfarwyddir y Comisiynydd i ymchwilio iddi i'w thrin yn yr un modd ag unrhyw gŵyn arall a wneir i'r Comisiynydd.

# Cyffredinol

## 19 Adroddiad blynyddol

(1) Cyn gynted ag y gellir ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Comisiynydd osod gerbron y Cynulliad adroddiad blynyddol ar gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd drwy gydol y flwyddyn honno.

(2) Yn ddarostyngedig i is-adran (3) rhaid i'r adroddiad gynnwys datganiad cryno o wybodaeth sy'n ymwneud â materion a thrafodion ariannol y Comisiynydd wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny yn ystod y flwyddyn honno.

(3) Rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir gan y Cynulliad o ran ffurf yr adroddiad blynyddol ac o ran unrhyw wybodaeth benodol neu ddosbarth penodol o wybodaeth y mae'n rhaid iddo eu cynnwys.

(4) Yn ddarostyngedig i is-adran (5), rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad–

(a) i ddod gerbron y pwyllgor hwnnw,

(b) i roi i'r pwyllgor unrhyw wybodaeth y mae'n rhesymol i'r pwyllgor ofyn amdani mewn perthynas ag unrhyw fater a gynhwyswyd mewn adroddiad sydd wedi'i osod gerbron y Cynulliad o dan is-adran (1) neu yr oedd yn ofynnol ei gynnwys mewn adroddiad o'r fath.

(5) Nid oes angen i'r Comisiynydd gydymffurfio a gofyniad o dan is-adran (4)–

(a) os nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, a

(b) ac eithrio yn achos gofyniad o dan is-adran (4)(b) a fynegir i'r Comisiynydd ar lafar yn un o gyfarfodydd y pwyllgor, oni bai bod y gofyniad yn un ysgrifenedig.

## 20 Dehongli

(1) Yn y Mesur hwn-

ystyr "Deddf 2006" yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32);

mae "Aelod Cynulliad" ("Assembly Member") yn cynnwys–

a) at ddibenion adran 1(3)(a) a (b) yn unig, y Cwnsler Cyffredinol hyd yn oed os nad yw'r swyddog hwnnw'n Aelod o'r Cynulliad, a

(b) ac eithrio at ddibenion adran 1(3)(a) a (b), cyn Aelod o'r Cynulliad,

ystyr "y Clerc" ("the Clerk") yw Clerc y Cynulliad,

ystyr "y Comisiwn" ("the Commission") yw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

ystyr "Cwnsler Cyffredinol" ("Counsel General") yw Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystyr "y Ddeddf" ("the Act") yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32),

ystyr "y Pwyllgor Safonau Ymddygiad" ("the Committee on Standards of Conduct") yw unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor i'r Cynulliad y dirprwywyd iddo, gan y Rheolau Sefydlog neu odanynt, swyddogaethau sy'n ymwneud â chwynion bod Aelodau Cynulliad wedi methu â chydymffurfio â gofynion darpariaeth berthnasol, ac

ystyr "Rheolau Sefydlog" ("Standing Orders") yw Rheolau Sefydlog y Cynulliad.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Mesur hwn at "y Cynulliad" yn gyfeiriad–

(a) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru, neu

(b) heblaw yn adrannau 1, 4, 6(3)(b), (c) a (d) a'r Atodlen, at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

## 21 Enw byr a chychwyn

(1) Enw'r Mesur hwn yw Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009.

(2) Daw'r Mesur hwn i rym fel a ganlyn–

(a) daw'r adran hon ac adrannau 1, 3 (gan gynnwys yr Atodlen) a 20 i rym drannoeth y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor, a

(b) daw gweddill darpariaethau'r Mesur hwn i rym drannoeth y diwrnod y cyhoeddir hysbysiad o dan is-adran (3).

(3) Rhaid i'r Clerc, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i benodiad cyntaf Comisiynydd o dan y Mesur hwn ddod i rym, beri cyhoeddi, mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yng Nghymru, hysbysiad–

(a) o'r ffaith bod y penodiad o dan sylw wedi dod i rym, a

(b) o'r ffaith y bydd holl ddarpariaethau'r Mesur hwn (heblaw'r rhai sydd eisoes mewn grym) oherwydd cyhoeddi'r hysbysiad yn dod i rym drannoeth y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad.

## Atodlen

(a gyflwynir gan adran 3)

# 9. Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Penodi

1. Rhaid i'r Cynulliad wneud trefniadau–

(a) i sicrhau bod unrhyw berson a benodir yn Gomisiynydd wedi'i nodi drwy gystadleuaeth deg ac agored, a

(b) i bennu'r telerau y bydd y penodiad hwnnw, o'i wneud, yn effeithiol odanynt.

2 Caniateir i'r trefniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 1, (ond nid penodi'r person a nodir fel hyn,) gael eu dirprwyo gan y Cynulliad, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i'r Comisiwn, i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad neu i staff y Cynulliad a chaniateir i'r trefniadau hynny gynnwys personau sy'n annibynnol ar y Cynulliad.

## Corfforaeth undyn

3 Mae'r person sydd am y tro yn dal swydd Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i fod yn gorfforaeth undyn, o dan enw'r swydd honno.

## Dogfennau

4 (1) Mae gosod sêl y Comisiynydd i'w ddilysu â llofnod-

(a) y Comisiynydd, neu

(b) unrhyw berson a awdurdodir gan y Comisiynydd at y diben hwnnw.

(2) Caniateir i ddogfen sy'n honni ei bod wedi'i gweithredu'n briodol o dan sêl y Comisiynydd neu ei bod wedi'i llofnodi ar ran y Comisiynydd gael ei derbyn fel tystiolaeth ac, oni phrofir i'r gwrthwyneb, rhaid cymryd ei bod wedi'i gweithredu felly neu wedi'i llofnodi felly.

## Ariannol

5. (1) Rhaid i'r Comisiwn–

(a) dalu i'r Comisiynydd unrhyw gyflog ac unrhyw lwfansau, a

(b) gwneud unrhyw daliadau tuag at ddarparu buddion blwydd-dal ar gyfer y Comisiynydd neu mewn perthynas ag ef, y darperir ar eu cyfer gan delerau penodi'r Comisiynydd neu o danynt.

(2) Rhaid i'r Comisiwn dalu i berson neu mewn perthynas â pherson sydd wedi rhoi'r gorau i ddal swydd y Comisiynydd unrhyw symiau (os oes rhai) ar ffurf–

(a) pensiwn neu roddion, neu

(b) darpariaeth ar gyfer y buddion hynny

y darparwyd ar eu cyfer gan delerau penodi'r Comisiynydd neu o danynt.

(3) Rhaid i'r Comisiwn dalu unrhyw rwymedigaethau rhesymol y mae'r Comisiynydd wedi'u hysgwyddo'n gyfreithlon–

(a) wrth gyflogi staff,

(b) wrth sicrhau bod nwyddau neu wasanaethau'n cael eu darparu, ac

(c) mewn perthynas â lwfansau a threuliau personau sy'n rhoi tystiolaeth neu sy'n cyflwyno dogfennau.

(4) Mae symiau y mae eu hangen i wneud taliadau o dan is-baragraffau (1) a (2) i'w codi ar Gronfa Gyfunol Cymru.

## Staff, nwyddau a gwasanaethau

6. (1) Caiff y Comisiynydd, ar unrhyw delerau a bennir gan y Comisiynydd, benodi unrhyw staff neu sicrhau y darperir unrhyw nwyddau neu wasanaethau y mae'r Comisiynydd o'r farn eu bod yn angenrheidiol i helpu i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

(2) Caiff y Comisiynydd wneud trefniadau gydag unrhyw gorff cyhoeddus neu ddeiliad swydd gyhoeddus, ar unrhyw delerau y bydd y Comisiynydd a'r corff hwnnw neu'r deiliaid swydd hwnnw yn cytuno arnynt, i'r corff hwnnw neu'r deiliaid swydd hwnnw ddarparu unrhyw wasanaethau y mae'r Comisiynydd o'r farn eu bod yn angenrheidiol i helpu i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

(3) Wrth arfer pwerau o dan is-baragraffau (1) a (2) neu o dan adran 11(3), rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i gyfrifoldebau'r Clerc, yn rhinwedd ei swydd fel prif swyddog cyfrifyddu'r Comisiwn, o dan adran 138(3)(a) o'r Ddeddf.

(4) O ran unrhyw rwymedigaeth y gall fod yn ofynnol i'r Comisiwn ei thalu o dan baragraff 5(3), rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Clerc a rhaid iddo wneud hynny–

(a) os yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, cyn ysgwyddo'r rhwymedigaeth o dan sylw,

(b) os nad yw, cyn gynted wedyn ag y bydd yn rhesymol ymarferol.

(5) Rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y Clerc pan ymgynghorir â'r Clerc o dan is-baragraff (4).

(6) Gall dyletswydd y Comisiynydd i ymgynghori â'r Clerc o dan is-baragraff (4) gael ei chyflawni mewn perthynas â rhwymedigaeth benodol naill ai–

(a) drwy roi manylion y rhwymedigaeth o dan sylw i'r Clerc, neu

(b) drwy hysbysu'r Clerc y gallai rhwymedigaethau o ddisgrifiad penodol hyd at gyfanswm penodedig gael eu hysgwyddo, ar yr amod, pan fo (b) yn gymwys, fod y rhwymedigaeth benodol o dan sylw yn dod o fewn y disgrifiad a hysbyswyd ac nad yw, o'i chymryd ynghyd ag unrhyw rwymedigaethau eraill y mae'r hysbysiad hwnnw'n cyfeirio atynt, yn fwy na'r cyfanswm a hysbyswyd.

## Gwybodaeth ariannol

7 Rhaid i'r Comisiynydd roi i'r Comisiwn unrhyw wybodaeth am faterion a thrafodion ariannol y Comisiynydd y mae'n rhesymol i'r Comisiwn ofyn amdani i'w alluogi i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir ar y Comisiwn gan gyfarwyddyd a roddir i'r Comisiwn mewn perthynas â'r Comisiynydd o dan adran 137(1) a (2) o'r Ddeddf.

COMISIYNYDD
SAFONAU

STANDARDS
COMMISSIONER

